**LC543**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 Rhif. 2302 (W.227)**

Mae hwn yn disodli Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 ac yn cyflwyno'r gwelliannau ym mharagraffau (a) - (d) y nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn hwn mewn perthynas ag anghysondeb rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg yn rheoliad 5(2)(f)/(dd).

Nid yw'r testun Saesneg (is-baragraff (f)) ond yn cyfeirio at afr a symudwyd i sioe tra bo'r testun Cymraeg (is-baragraff (dd)) yn cyfeirio at afr a symudwyd i sioe neu ohoni.

Gwnaed sylwadau gan y Gweinidog mewn llythyr, dyddiedig 20 Tachwedd 2002 (ceir copi ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn) i'r perwyl -

1. Mae'n amlwg y dylai'r ddau baragraff ddarllen “i neu ohoni”. Mae "neu ohoni" wedi'i adael allan o'r testun Saesneg drwy gamgymeriad.
2. Gan fod yn rhaid i anifeiliaid a symudwyd i sioe gael eu symud oddi yno, mae'r effaith ymarferol yr un fath.
3. Gan y daw'r ddeddfwriaeth i ben ddiwedd fis Ionawr, cyn dechrau tymor sioeau'r flwyddyn nesaf, ni chredir bod angen offeryn diwygio.

**Sylwadau**

Er ei fod yn cydnabod bod tymor y sioeau wedi dod i ben ac na fydd y gorchymyn mewn

grym o ddiwedd Ionawr, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw hi'n foddhaol cael anghysondeb rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg ac y dylai gorchymyn diwygio felly gael ei wneud.

**Atodlen**

Mae prif ran y ddogfen ragnodedig ar fformat dwyieithog sengl (un dudalen lawn).  Efallai y byddai wedi bod yn well, felly, pe bai pennawd a geiriad agoriadol y ddogfen hefyd ar fformat dwyieithog tudalen lawn (yn hytrach na fformat dwy golofn) er mwyn dangos nad dewisiadau eraill mo'r rhain ond bod yn rhaid i'r ddogfen gael ei defnyddio ar ffurf lle mae'r pennawd a'r geiriad agoriadol (yn ogystal â'r prif destun) yn Gymraeg a Saesneg.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

3 Rhagfyr 2002